

# Adolygiad canol-tymor Comisiynwyr Plant y DU

Tachwedd 2019




CHILDREN & YOUNG PEOPLE'S Commissioner Scotland

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

NICCY
PROMOTING THE RIGHTS OF CHILDREN & YOUNG PEOPLE

Children's COMMISSIONER

Eleni rydyn ni'n nodi 30 mlwyddiant Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, cytundeb oedd yn garreg filltir gan lywodraethau ar draws y byd yng nghyswllt hawliau plant. Fel Comisiynwyr Plant, mae'n elfen ganolog o'n cenhadaeth i sicrhau bod yr hawliau hynny'n cael eu gwireddu i bob plentyn.

Bu Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn adolygu cynnydd y Deyrnas Unedig ddiwethaf yn 2016, a bydd yn gwneud hynny eto yn 2021. Fel Comisiynwyr Plant, rydym yn asesu sut mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi gwneud cynnydd tuag at roi i bob plentyn y cyfleoedd a'r amddiffyniadau a grisialwyd yn CCUHP ers hynny. Cefndir o ansicrwydd gwleidyddol sydd i'r asesiad. Bellach mae tair blynedd wedi mynd heibio ers i'r Deyrnas Unedig bleidleisio i adael yr UE, ac mae Brexit wedi mynd â sylw ac egni gwleidyddol oddi wrth faterion cartref, gan gynnwys anghenion plant.

## "Fel Comisiynwyr Plant ein prif nôd yw sicrhau bod pob plentyn yn derbyn eu hawliau."

Yn ogystal, mae Gogledd Iwerddon wedi bod heb lywodraeth ers mwy na 1000 o ddiwrnodau, sy'n golygu bod llawer o benderfyniadau hanfodol sy'n effeithio ar blant heb gael eu gwneud.

Fodd bynnag, gwnaed peth cynnydd; mae cynlluniau ar waith ar draws llawer o'r Deyrnas Unedig i ddiwallu anghenion iechyd meddwl plant. Mae mesurau newydd ar gyfer mynd i'r afael â Cham-drin Domestig, sy'n effeithio ar gannoedd o filoedd o blant y flwyddyn, yn cael eu cyflwyno.




Mae'r Alban wedi pasio, ac mae disgwyl i Gymru basio, deddfwriaeth sy'n gwahardd cosb gorfforol i blant. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn awr yn cymryd o ddifri yr angen am amddiffyn plant ar-lein, gan gyflwyno Côd Dylunio Oed-Briodol.

Er bod rhai datblygiadau cadarnhaol wedi digwydd, mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod diwygiadau lles llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwthio mwy o blant i mewn i dlodi, sydd yn ei dro yn cynyddu'r galw am wasanaethau i blant. Ac eto, mae'r gwasanaethau hyn yn dal i wynebu pwysau sylweddol, ac nid ydynt bob amser yn gallu darparu'r cymorth dwys neu gynnar y mae ar blant ei angen. Ni all Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig ond cynnal hawliau pob plentyn i fod yn ddiogel a ffynnu os bydd darpariaeth ddigonol o'r gwasanaethau hyn.

Yn ogystal, mae diffygion difrifol yn dal i fodoli pan drown at hanfodion cadw plant yn ddiogel rhag trais a chamdriniaeth. Mae rhai plant yn cael eu cam-drin mewn sefydliadau sydd i fod i ofalu amdanynt, ac mae eraill yn dod i gysylltiad â risgiau annerbyniol yn eu cymunedau. Yma rydym ni'n cyflwyno ein blaenoriaethau ar gyfer sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu, a bod pob plentyn yn cael yr amddiffyniadau a'r cyfleoedd y mae ganddynt hawl i'w derbyn.

Anne Longfield OBE
Comisiynydd Plant Lloegr

Bruce Adamson
Comisiynydd Plant yr Alban

Koulla Yiasouma
Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru

| Mater | Cynnydd | Beth sydd angen ei wneud |
|---|---|---|
| Iechyd corff a meddwl | Mae amserau aros i blant gael mynediad i ofal iechyd yn ormodol, ac mae'r amserau aros hiraf yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r oedi yn arbennig o ddifrifol yn achos y gwasanaethau Iechyd Meddwl, ac mae diffyg darpariaeth gymunedol, yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu neu awtistiaeth. Mae gormod o bobl ifanc yn mynd i wardiau diogel, ymhell o'u cartref, yn cael eu hatal neu eu hynysu, a heb eu trin ag urddas. Mae rhai plant yn dal i gael eu lleoli mewn wardiau iechyd meddwl oedolion. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban bu cyllid cynyddol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, ac mae cynlluniau ar waith i wella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl mewn ysgolion. Serch hynny, mae llawer o blant yn dal i fethu cael y driniaeth angenrheidiol ar yr adeg briodol.<br><br>Mae llywodraethau Cymru a Lloegr wedi ymrwymo i gyflwyno Addysg Perthnasoedd Iechyd a Rhyw, fydd yn gofyn bod pob plentyn yn cael gwersi ar iechyd meddwl a rhyw, ac mae Llywodraeth yr Alban yn cynnal adolygiad o Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Ni welwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfraddau marwoldeb plant ers 2014 – yn wir, mewn rhannau o'r Deyrnas Unedig mae marwoldeb babanod wedi bod yn codi ers 2015, ac ymddengys bod cysylltiad rhwng hynny a thlodi rhieni. O'r holl farwolaethau ymhlith plant a phobl ifanc 0-19 oed yn y Deyrnas Unedig, barnwyd bod modd osgoi 34% ohonynt. | **Mae angen cynyddu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl, yn arbennig cymorth yn y gymuned, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael cymorth pan fydd angen, ac nad oes unrhyw blentyn yn cael ei gloi mewn sefydliad yn ddiangen.** Dylai fod cwnselydd wedi'i hyfforddi ar gael ym mhob ysgol sydd heb un erbyn 2023. **Rhaid lleihau'r defnydd o fesurau atal ac ynysu plant, a dylid adrodd am bob achos o hynny a'u cofnodi.**<br><br>Rhaid gweithredu ar frys i roi sylw i restrau aros annerbyniol o hir ar gyfer gofal iechyd a dileu'r holl farwolaethau y gellid eu hosgoi ymhlith plant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys cyflwyno mecanweithiau trosolwg effeithiol ar gyfer marwolaethau plant yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. |
| Sicrwydd ariannol | Mae nifer y plant sydd mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig wedi codi i 4.1 miliwn, ac mae hynny'n deillio'n rhannol o newidiadau i fudd-daliadau. Plant mewn teuluoedd mawr sydd wedi dioddef yr ergyd fwyaf, yn rhannol oherwydd y cap ar fudd-dal a'r terfyn dau blentyn. Mae'r rheiny sydd mewn tlodi hefyd yn fwy tebygol o wynebu eithrio digidol, sy'n creu heriau o safbwynt cael mynediad at gymorth ariannol. Mae llywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon fel ei gilydd wedi gwario'n sylweddol i liniaru effaith y newidiadau hyn (er bod gwariant i'r dyfodol yn ansicr yng Ngogledd Iwerddon oherwydd y diffyg llywodraeth), a bydd Llywodraeth yr Alban yn cyflwyno Taliad Plant yr Alban yn hydref 2020. Er gwaethaf y galw am hynny, nid yw Cymru wedi cynhyrchu cynllun cyflawni ar gyfer tlodi plant na chyllideb sydd â ffocws ar blant. Mae cannoedd ar filoedd o blant yn byw mewn tai o safon annerbyniol o wael, sy'n aml yn llety amhriodol a rennir, a hynny'n aml am gyfnod llawer rhy hir. | Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig atal y broses o estyn Credyd Cyffredinol a chyflwyno diwygiadau i liniaru'r elfennau negyddol i blant, gan gynnwys dileu'r terfyn dau blentyn, y cyfnod o bum wythnos o aros a'r cap ar fudd-daliadau, a mynd ati ar frys i ymdrin ag eithrio digidol a rhwystrau i system fudd-daliadau'r Deyrnas Unedig, sy'n ddigidol yn ddiofyn. **Dylid cymryd camau i leihau'r defnydd o lety dros dro ac amhriodol ar gyfer plant.** |
| Cefnogi teuluoedd | Ar draws y Deyrnas Unedig, mae'r gwariant ar wasanaethau i gefnogi teuluoedd wedi gostwng yn ddramatig yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Yn ystod yr un cyfnod, rydym wedi gweld mwy o blant yn cael eu cymryd i ofal, neu'n cael eu rhoi ar gynlluniau amddiffyn plant. Pan fyddan nhw mewn gofal, mae llawer o blant yn profi lefelau o ansefydlogrwydd sy'n destun pryder – gyda gweithwyr cymdeithasol, ysgolion a gofalwyr yn newid yn fynych – neu lefelau gofal sydd o dan y safon, yn arbennig plant hŷn sy'n cael eu gosod mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio.<br><br>Bu peth buddsoddi i'w groesawu mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac addysg blynyddoedd cynnar, yng Ngogledd Iwerddon trwy Ganolbwyntiau Cymorth i Deuluoedd ac yng Nghymru, yr Alban a Lloegr darpariaeth gynyddol o ran addysg gynnar a gofal plant, er bod llawer o'r plant mwyaf difreintiedig yn dal i golli cyfleoedd. | Dylai pob un o lywodraethau'r Deyrnas Unedig roi blaenoriaeth i raglen wariant fydd yn lleihau rhoi plant o dan anfantais ac mewn sefyllfa fregus trwy raglenni ymyrraeth gynnar, gan gynnwys gwasanaethau blynyddoedd cynnar. Dylai sicrhau cyllid digonol ar gyfer plant agored i niwed, gyda chefnogaeth gwasanaethau plant a chasglu data i olrhain eu cynnydd. |
| Trais tuag at blant | Bu cynnydd difrifol yn nifer y plant sydd wedi dioddef troseddau cyllyll, ac mae llawer yn dioddef ecsbloetio rhywiol neu droseddol, neu'n cael eu paratoi i fod yn rhan o gangiau. Mae'r peryglon hyn y tu allan i'r teulu yn cael eu cydnabod fwyfwy, ond mae angen gwneud llawer mwy. Nid yw miloedd o blant sy'n nodi eu bod yn aelodau o gangiau yn cael unrhyw gymorth ffurfiol, ac mae plant yng Ngogledd Iwerddon yn dal i wynebu trais a bygythiadau parafilwrol.<br><br>Gwnaed cynnydd o ran ymdrin â'r trais mae plant yn ei wynebu yn y cartref – gan gyflwyno bil newydd i fynd i'r afael â Cham-drin Domestig ar draws y Deyrnas Unedig, newid yn y gyfraith yn yr Alban i atal rhieni rhag cosbi eu plant yn gorfforol, a chyflwyno bil tebyg yng Nghymru. Mae adolygiad o droseddau rhywiol difrifol yng Ngogledd Iwerddon wedi cydnabod yr angen am drawsnewid yn llwyr sut mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn cael sylw.<br><br>Mae lluoedd arfog y Deyrnas Unedig yn dal i dderbyn plant 16 ac 17 oed, er bod Pwyllgor y CU wedi gofyn iddyn nhw ailystyried hynny. | Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau bod gwell casglu gwybodaeth am blant sy'n dioddef gwahanol fathau o ecsbloetio, bygythiadau a thrais, a gwell hyfforddiant ar sut mae lleihau'r risgiau mae plant yn eu hwynebu. **Dylid mabwysiadu'r Barnahus, neu fodel tebyg plentyn-ganolog ar gyfer ymdrin ag ymosodiadau rhywiol ar blant, ar draws y Deyrnas Unedig.** Dylai llywodraethau Lloegr a Gogledd Iwerddon gyflwyno deddfwriaeth i wahardd rhieni rhag rhoi cosb gorfforol i'w plant. **Ni ddylai'r lluoedd arfog dderbyn plant o dan 18 oed.** |
| Hawliau digidol | Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dod i ddeall yn gynyddol yr angen am ddiogelu hawliau plant yn yr amgylchedd digidol, ac mae wedi cyhoeddi papur gwyn 'Online Harms', sy'n cynnig cyflwyno dyletswydd gofal tuag at ei ddefnyddwyr. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cyflwyno côd dylunio newydd oed-briodol i amddiffyn preifatrwydd plant, wedi'i seilio ar hawliau plant. Yn yr Alban mae'r Comisiynydd Ieuenctid 'iRights' wedi cyflwyno argymhellion i gynnal hawliau digidol plant. | Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fynd ati'n llawn ac ar frys i weithredu'r Ddyletswydd Gofal arfaethedig ar draws pob llwyfan – a sicrhau nad yw'n cael ei gwanhau i fodloni gofynion cwmnïau technoleg, yn hytrach na phlant. **Dylid defnyddio datganiad Rhwydwaith Ombwdsmyn Plant Ewrop ar Hawliau Digidol i lywio gweithrediad canllawiau Cyngor Ewrop ar hawliau digidol.** |
| Cyfiawnder troseddol | Mae cannoedd o blant yn dal i gael eu hamddifadu o'u rhyddid bob blwyddyn, ac mae rhai ohonynt yn wynebu mesurau atal poenus, neu'n cael eu hynysu oddi wrth eu cyfoedion am gyfnodau hir. Y Deyrnas Unedig sydd â'r oed cyfrifoldeb troseddol isaf, sef 10 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac 8 (sydd i godi i 12 yn 2020) yn yr Alban. Yn ddiweddar cadarnhaodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn eu cyngor mai'r isafswm oed cyfrifoldeb troseddol sy'n dderbyniol yn rhyngwladol yw 14. Mae defnyddio stopio a chwilio a chwilio plant a phobl ifanc yn noeth yn dal i dorri hawliau plant, ac yn cael effaith negyddol ar eu perthynas gyda'r heddlu a'r awdurdodau. | Dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylid rhoi plant yn y ddalfa, ac ni ddylid rhoi plant o dan 18 oed yn y ddalfa gyda rhai dros 18. **Dylid gwahardd pob defnydd o fesurau atal a luniwyd i achosi poen, neu at ddibenion cosbi.** Dylid cytuno ar ddiben a chanlyniadau pob gweithrediad stopio a chwilio a chwilio noeth gyda phlant a phobl ifanc, ac adrodd arnynt yn unol â hynny, gan leihau eu defnydd. **Dylid codi oed cyfrifoldeb troseddol i 14 oed o leiaf.** |
| Addysg | Mae gwaharddiadau ffurfiol ac anffurfiol (gan gynnwys 'tynnu oddi ar y gofrestr' i addysgu gartref a threfniadau amserlen gyfyngedig) ar gynnydd ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cael effaith anghymesur ar blant sydd ag anghenion arbennig, sydd eisoes yn fwy agored i niwed, ac y mae diffyg cyllid SEND eisoes yn effeithio ar eu hawliau i gael addysg. Ar ben hynny mae lefel sy'n destun pryder o ddefnydd o ynysu a 'gwaharddiadau mewnol' ac adroddiadau am blant, yn arbennig mewn darpariaeth arbenigol, yn cael eu hatal mewn modd sy'n achosi poen.<br><br>Ymhlith y datblygiadau cadarnhaol mae cynigion ar wahân yng Nghymru a Lloegr i gyflwyno canllawiau newydd i gefnogi teuluoedd a chynnal hawliau plant pan gânt eu haddysgu gartref, a chanllawiau newydd ar leihau dulliau atal mewn ysgolion arbennig yn Lloegr ac mewn amrywiaeth o leoliadau yng Nghymru. | Dylai pob llywodraeth ddarparu lefelau digonol o gyllid ar gyfer ysgolion. **Dylai pob llywodraeth ddarparu canllawiau cynhwysfawr ar gyfyngu defnydd o ynysu a mesurau atal oni bai bod plentyn yn wynebu perygl niwed uniongyrchol, ac mae galw am ddefn gyson o gofnodi ac adrodd am bob achos.** Dylid cyflwyno mecanweithiau i leihau gwaharddiadau ffurfiol ac anffurfiol, ac i sicrhau bod yr holl blant hyn yn cael eu nodi a'u cefnogi. **Dylid sicrhau canllawiau cenedlaethol cynhwysfawr ar ddefnyddio mesurau atal ac ynysu plant ym mhob lleoliad, gan gynnwys addysg, a threfn gyson genedlaethol o gofnodi ac adrodd am bob achos.** |
| Parchu hawliau plant | Yng Nghymru a'r Alban mae'n gyfreithiol ofynnol bod gweinidogion y llywodraeth yn rhoi sylw dyledus i CCUHP. Nid oes gofyniad o'r fath yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr, er bod templed ar gyfer Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gyflwyno yn Lloegr ar draws y llywodraeth. Hyd yma, yr Alban yw'r unig genedl sydd â chynlluniau i ymgorffori CCUHP i'r gyfraith, gyda bil sydd i'w gyflwyno yn 2020. | **Dylid cyflwyno bil i ymgorffori CCUHP i gyfraith gwlad, a hynny ar frys ym mhob cenedl, i nodi'r 30 mlwyddiant.** Dylai fod yn ofynnol bod pob dadansoddiad effaith ar gyfer deddfwriaeth newydd yn y Deyrnas Unedig yn cynnwys adran ar effaith hynny ar hawliau plant. |

# Ein blaenoriaethau

## Gogledd Iwerddon

- Ymgorffori CCUHP yn llawn, yn uniongyrchol ac ar frys i gyfraith gwlad yng Ngogledd Iwerddon
- Mwy o fuddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Mwy o gyllid ar gyfer addysg, gyda ffocws ar lesiant, a diwallu anghenion plant ag AAA
- Diwygio'r system addysg i oresgyn anghydraddoldebau a rhaniadau a sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg o safon uchel
- Gweithredu effeithiol i fynd i'r afael â digartrefedd a thlodi, gan gynnwys pecyn lliniaru newydd, a dileu'r terfyn dau blentyn
- Ymdrin â sut mae'r gwrthdaro wedi effeithio ar blant a phobl ifanc, gan ddechrau gydag effaith trais a bygythiadau 'parafilitaraidd'
- Ffocws ar ddiogelu hawliau a lles pennaf plant yng Ngogledd Iwerddon ar hyd proses Brexit
- Cyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:
  - » Codi isafswm oed cyfrifoldeb troseddol
  - » Gwahardd cosb gorfforol
  - » Dod â phob Camwahaniaethu ar sail Oedran i ben (GFS)

## Yr Alban

- Ymgorffori CCUHP yn llawn, yn uniongyrchol ac ar frys i gyfraith gwlad yn yr Alban
- Sicrhau canllawiau cenedlaethol cynhwysfawr ar ddefnyddio mesurau atal ac ynysu plant ym mhob lleoliad, gan gynnwys addysg, a chofnodi ac adrodd cyson am bob achos
- Codi isafswm oed cyfrifoldeb troseddol yn unol â safonau rhyngwladol
- Cefnogaeth iechyd meddwl ddigonol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc
- Dull gweithredu seiliedig ar hawliau i leihau, lliniaru ac atal tlodi plant
- Cydnabod amddiffynwyr hawliau dynol plant yn gyhoeddus, a chynyddu'r gefnogaeth ar eu cyfer
- Sicrhau cyfiawnder plentyn-gyfeillgar i bob plentyn sy'n dod i gysylltiad â'r gyfraith

## Cymru

- Ymgorffori CCUHP yn llawn, yn uniongyrchol ac ar frys i gyfraith gwlad yng Nghymru
- Cwblhau'r broses ddeddfwriaethol i roi amddiffyniad cyfartal rhag cosb gorfforol i blant a phobl ifanc
- 'Dim drws anghywir' ar gyfer cymorth emosiynol, ymddygiadol a meddyliol
- Darparu gofal preswyl diogel, therapiwtig ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â phroblemau ymddygiad neu iechyd meddwl difrifol
- Cynnig addysg gynnar a gofal plant cyffredinol sy'n cynnwys plant rhieni sydd ddim yn gweithio, yn ogystal â'r cynnig cyfredol ar gyfer rhieni sy'n gweithio
- Cynllun Cyflawni ar gyfer Tlodi Plant sy'n nodi camau pendant i liniaru a mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru
- Darparu adnoddau digonol ar gyfer diwygiadau cadarnhaol a welwyd gan Lywodraeth Cymru, megis Deddf Anghenion Dysgu a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r cwricwlwm newydd
- Cynnwys CCUHP yn benodol ar wyneb deddfwriaeth y Cwricwlwm newydd

## Lloegr

- Ymgorffori CCUHP yn llawn, yn uniongyrchol ac ar frys i gyfraith gwlad yn Lloegr
- Mwy o arian ar gyfer teuluoedd mewn amgylchiadau heriol, gan gynnwys agor ysgolion i gymunedau
- Cwnselydd GIG wedi'i hyfforddi ym mhob ysgol, a mynediad at gymorth iechyd meddwl i bob plentyn
- Gweithredu ar frys i leihau tlodi plant a digartrefedd
- Cynyddu'r ddarpariaeth o leoliadau gofal ansawdd uchel ar gyfer plant sy'n methu byw gartre
- Gweithredu cynyddol i leihau nifer y plant sy'n mynd i'r ddalfa, a dileu defnydd o ddulliau atal sy'n achosi poen pan fydd pobl ifanc yn y ddalfa
- Amddiffyniad ar gyfer plant sydd mewn perygl o ddiodef trais difrifol
- Dileu amddiffyniad cosb resymol am ymosod ar blant
- Lefelau digonol o gyllid ar gyfer plant ag anghenion arbennig
- Pwyllgor Cabinet ar gyfer plant

# Beth mae plant yn dweud?

“Ar hyd eich bywyd y cyfan rydych chi eisiau yw cael eich derbyn gan rywun, p’un ai eich ffrindiau, yn y dosbarth gyda’ch cyfoedion, neu gan eich rhieni. Ac ar ôl bod trwy’r system ofal, weithiau rydych chi’n teimlo bod neb yn eich derbyn nac eisiau chi.”

“Dwy ddim yn credu dylai rhieni gael taro eu plant, gan fod hynny’n fath o gam-drin plant sydd eisoes yn anghyfreithlon.”

“Buodd rhaid i’m rhieni frwydro go iawn i gael mynediad at wasanaethau perthnasol. Fe gymrodd 4 blynedd cyn i mi weld rhywun oedd yn gallu helpu, o’r diwedd.”

“Mae gorfod aros am fwy na 6 mis am apwyntiad iechyd meddwl yn gallu costio bywydau – roedd bron yn ddigon i mi.”

“Mae’r ffaith bod dim cymaint o glybiau ieuenctid bellach wedi arwain at bobl ifanc jyst yn – maen nhw’n llythrennol allan ar y strydoedd, yn y bôn, does ganddyn nhw ddim byd i’w wneud.”

“Rwy’n gobeithio y byddwch chi’n cymryd beth rydyn ni’n meddwl i ystyriaeth, wrth i ni roi llais i’r materion sydd bwysicaf i ni.”

“Peidiwch â’n hanghofio ni! Efallai mai ni yw’r lleiafrif, rydym ni’n rhannu’r gyfran leiaf o’r bastai, efallai ein bod ni’n anabl, efallai y byddwn ni’n dewis newid ein rhywedd, efallai byddwn ni’n perthyn i hil wahanol, neu’n siarad gwahanol ieithoedd, ond rydyn ni’n rymus fel un, felly peidiwch â’n hanghofio ni!”




**Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban**
Twitter: @cypcs
Ymwelwch â: www.cypcs.org.uk

**Comisiynydd Plant Cymru**
Twitter: @childcomwales
Ymwelwch â: www.childcomwales.org.uk

**Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon**
Twitter: @nichildcom
Ymwelwch â: www.niccy.org

**Comisiynydd Plant Lloegr**
Twitter: @ChildrensComm
Ymwelwch â: www.childrenscommissioner.gov.uk